



RHONDDA CYNON TAF

Rhieni/Cynhalwyr

Gofynnwch am:

Ask For

Rhif Est:

Ext N°:

Ffacs:

Fax:

E-bost:

E-mail:

Cylchlythyr:

Circular:

Gaynor Davies

01443 744001

Fy Nghyf: GD/TM
My Ref:

Eich Cyf: Your Ref:

Dyddiad: 24 Mehefin 2020
Date:

Annwyl Rieni/Cynhalwyr

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 19 Mehefin mewn perthynas ag ailagor holl ysgolion Rhondda Cynon Taf yn raddol ar 29 Mehefin.

Byddwch chi eisoes yn gwybod bod y Gweinidog Addysg yng Nghymru, Kirsty Williams, wedi cyhoeddi ar 3 Mehefin 2020 y byddai pob plentyn yn cael cyfle i 'Ailgydio, Dal i Fyny a Pharatoi' ar gyfer yr haf a mis Medi. Nododd y Gweinidog y byddai tymor yr haf yn cael ei ymestyn am wythnos ychwanegol, ac felly byddai ysgolion yn cau ar 27 Gorffennaf 2020, ac y byddai pythefnos o wyliau hanner tymor yn yr hydref 2020.

Mae'n bosibl y byddwch chi hefyd yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ddydd Gwener diwethaf mai cynghorau ac ysgolion ledled Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch agor ysgolion am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'n hysgolion ers y cyhoeddiad diweddar yma i archwilio'r posibilrwydd o agor ysgolion Rhondda Cynon Taf am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr Haf.

Er yr ewyllys da a'r proffesiynoldeb eithriadol y mae ein hysgolion wedi'u harddangos, a pharodrwydd ein staff i weithio'r wythnos ychwanegol yma, mae nifer o ffactorau wedi golygu ein bod ni ddim wedi gallu gwneud cynnydd o ran agor ysgolion ar gyfer yr wythnos ychwanegol yma. O ganlyniad i hynny, yn anffodus, bydd ysgolion Rhondda Cynon Taf yn cau ar 20 Gorffennaf 2020, yn ôl y bwriad gwreiddiol. Bydd gofal plant brys mewn ysgolion hefyd yn dod i ben ddydd Gwener 17 Gorffennaf 2020. Bydd gwybodaeth ynglŷn â gofal plant yr haf yn cael ei rhyddhau cyn bo hir.

Tŷ Trevithick
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000
Ffacs/Fax: 01443 744024


Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection




Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys tudalen cwestiynau cyffredin ar gyfer Rhieni a Chynhalwyr www.rctcbc.gov.uk/cwestiynaucyffredinysgolion. Dylai'r dudalen yma gynnwys atebion ar gyfer unrhyw bryderon sydd gyda chi ynghylch dychwelyd i'r ysgol o 29 Mehefin. Os nad ydych chi'n dod o hyd i ateb i'ch cwestiwn, mae croeso i chi e-bostio CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk os oes gyda chi unrhyw bryderon.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn parhau i weithio'n agos â'n holl ysgolion, sy'n parhau i wneud gwaith arbennig yn ystod y cyfnod heriol yma. Diolch unwaith eto am gefnogi'ch plant wrth iddyn nhw barhau i ddysgu gartref ac am weithio mewn partneriaeth ag ysgol eich plentyn.

Diolch ymlaen llaw am barhau i roi'ch cefnogaeth.

Yn gywir,



Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant